’Rwy’n gweld o bell y dydd yn dod

Caneuon Ffydd: Rhif 257

’Rwy’n gweld o bell y dydd yn dod
bydd pob cyfandir is y rhod
    yn eiddo Iesu mawr;
a holl ynysoedd maith y môr
yn cyd-ddyrchafu mawl yr Iôr
    dros ŵyneb daear lawr.

Mae teg oleuni blaen y wawr
o wlad i wlad yn dweud yn awr
    fod bore ddydd gerllaw;
mae pen y bryniau’n llawenhau
wrth weld yr haul yn agosáu
    a’r nos yn cilio draw.

WATCYN WYN, 1844–1905

MYFYRDOD

Mewn cyfnod pan mae trai yn eglwysi a chapeli’n gwlad, mae hi’n cymryd ffydd i fynegi gyda Watcyn Wyn:

> ’Rwy’n gweld o bell y dydd yn dod
> bydd pob cyfandir is y rhod
>   yn eiddo Iesu mawr.

Yn wir, bûm mewn rhai eglwysi lle mae aelodau o’r gynulleidfa yn gwrthod canu’r emyn am nad ydyn nhw’n credu y gall y fath beth fod yn bosibl! Yn sicr, o edrych yn rhesymegol ar amgylchiadau’n gwlad a’r rhwygiadau sydd yn ein byd, mae gobaith yr emynydd yn edrych yn debycach i freuddwyd ffŵl. Dywedir i’r emyn hwn ddechrau ‘canu’ ym mhen Watcyn Wyn tra oedd ar ei wyliau yng Ngheinewydd yng Ngheredigion wrth iddo weld yr haul yn codi dros y bryniau a chofio am y cenhadon oedd wedi mynd o’r ardaloedd hynny i Fadagasgar. Cafodd Watcyn Wyn weld trwy lygaid ffydd y bore hwnnw, a thrwy’r llygaid hynny rydym yn dal gafael yn addewid Iesu ar ddiwedd Efengyl Mathew, y bydd gyda

ni bob amser wrth inni fynd a gwneud 'disgyblion o'r holl genhedloedd' (Mth. 28:19), gan wybod hefyd fod pob awdurdod yn y nefoedd ac ar y ddaear wedi ei roi iddo ef.

Nid i'r Testament Newydd yn unig y perthyn y gobaith a'r addewid hwn 'y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd', fel y mynega Paul (Phil. 2:11). Fe welwn trwy'r Beibl fod calon Duw yn curo tuag at y colledig ym mhob gwlad. Fe gofiwn fod gan Jona broblem fawr efo'r ffaith bod Duw yn beiddio estyn ei drugaredd a'i ras tuag at bobl Ninefe, gelynion yr Israeliaid, ond fe fu'n rhaid iddo ddysgu yn y pen draw nad oes gwahaniaeth gan Dduw i ba genedl y perthynwn – ef sydd wedi creu y cyfan ac am i ni gydweithio ag ef er gweld achub y byd yn ei gyfanrwydd. Gwelwn ddyhead a phroffwydo yn Salm 72, er enghraifft, y bydd y Meseia yn 'llywodraethu o fôr i fôr ac o'r Ewffrates hyd derfynau'r ddaear . . . Bydded i frenhinoedd Tarsis a'r ynysoedd ddod ag anrhegion iddo' (Salm 72:8–10).

Nid Duw sydd yn perthyn i rai pobl mewn rhai gwledydd yw ein Duw ni, felly, ond Duw sydd wedi caru'r 'byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' (Ioan 3:16). Am hyn mae 'pen y bryniau'n llawenhau' a neges Duw yn llwyddo wrth iddi gael ei chyhoeddi: 'felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau; ni ddychwel ataf yn ofer' (Eseia 55:11).

Mae'r her yn parhau inni gyhoeddi neges yr Efengyl yma yng Nghymru ac i Dduw arddel ei Air wrth iddo gael ei gyhoeddi yn ffyddlon. Daliwn ein gafael yn yr addewidion hyn i gyd. Cymerwn ein calonogi hefyd yn llwyddiant yr Efengyl ar draws y byd, ac mewn llefydd digon annisgwyl – gwledydd fel China heddiw lle mae 10,000 o bobl yn dod at Grist bob dydd a'r Eglwys yn cynyddu yno er gwaethaf anawsterau ac erledigaeth:

Mae teg oleuni blaen y wawr
o wlad i wlad yn dweud yn awr
fod bore ddydd gerllaw.

GWEDDI

Dyro imi weld 'teg oleuni blaen y wawr' yma yng Nghymru, Arglwydd, a chynnal fi mewn gobaith a gweddi bod 'bore ddydd gerllaw' pan fyddi di'n teyrnasu mewn gwirionedd yn ein plith. Tyrd, Arglwydd Iesu, tyrd. Amen.